# Cofnodion cryno - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Medi 2020

Amser: 09.47 - 12.01

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6484

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
| --- | --- |
| Aelodau'r Cynulliad: | Russell George AS (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AS<br>Vikki Howells AS<br>Helen Mary Jones AS<br>Joyce Watson AS |
| Tystion: | Professor Andrew Henley, Prifysgol Caerdydd<br>Yr Athro Gillian Bristow, Prifysgol Caerdydd<br>Yr Athro Dylan Jones-Evans, Prifysgol De Cymru<br>David Hagendyk, Learning and Work Institute<br>Helen Cunningham, Sefydliad Bevan |
| Staff y Pwyllgor: | Robert Donovan (Clerc)<br>Lara Date (Ail Glerc)<br>Robert Lloyd-Williams (Dirprwy Glerc)<br>Ben Stokes (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Hefin David AS

Nid oedd dim dirprwyon na datganiadau o fuddiant

## 2 Papur(au) i'w nodi

### 2.1 Llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru parthed: Tynnu'r Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn ôl

2.1.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 2.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid parthed: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

2.2.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 2.3 Llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru parthed: Tystiolaeth a glywyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 18 Mehefin

2.3.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 2.4 Llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru parthed: Gweithredu dilynol i gyfarfod y Pwyllgor ar 11 Mai

2.4.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 2.5 Llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru parthed: Rhagor o wybodaeth yn dilyn y cyfarfod ar 16 Gorffennaf

2.5.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 3 Covid-19: Adferiad - Academyddion

3.1 Atebodd yr Athro Dylan Jones-Evans, Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol, Prifysgol De Cymru, yr Athro Andrew Henley, Cyfarwyddwr Ymgysylltu ag Ymchwil ac Effaith Ymchwil, Prifysgol Caerdydd a'r Athro Gillian Bristow, Athro mewn Daearyddiaeth Economaidd, Prifysgol Caerdydd gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

## 4 Covid19: Adferiad - Melinau Trafod

4.1 Atebodd David Hagendyk, Cyfarwyddwr Cymru, y Sefydliad Dysgu a Gwaith a Helen Cunningham, Swyddog Polisi ac Ymchwil, Sefydliad Bevan gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(xi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Preifat

6.1 Bu’r Aelodau yn trafod y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn.